Cafodd yr Ardal Triniaeth Ddwys (IAA) ei sefydlu fel ardal lle y byddai mesurau gwell ac ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â holl ffynonellau TB gwartheg, mewn rhywogaethau domestig ac anifeiliaid gwyllt. Ar yr adeg honno roedd gan fuchesi yn yr IAA y lefelau uchaf o TB yng Nghymru. Cafodd mesurau rheoli a chadw golwg ar wartheg llymach eu cyflwyno a oedd yn benodol i'r IAA ar 1 Mai 2010.

Mae asesiadau blynyddol manwl wedi cael eu cynnal gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i gymharu lefelau o TB gwartheg mewn buchesi a pharamedrau TB eraill yn yr ardal â thueddiadau hanesyddol, ac ag ardal gyfeirio lle mae sefyllfa debyg mewn perthynas â'r clefyd. Bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw fanteision o ganlyniad i'r cyfuniad o fesurau rheoli clefyd a ddefnyddiwyd yn yr IAA.

- Ar y dechrau roedd 88 achos agored yn yr IAA, mewn 325 o fuchesi (mynychder mewn buchesi o 27.1%) ar ddiwedd mis Mawrth 2019 roedd 38 o gyfyngiadau mewn 269 o fuchesi byw (14.1%), sy'n golygu gostyngiad o 48% rhwng y mis hwnnw a'r mis hwn.
- Y ffigurau cymharol ar gyfer yr ardal gyfeirio yw 142 o achosion agored mewn 1250 o fuchesi (11.4%) ar y dechrau a 97 mewn oddeutu 1130 o fuchesi (8.6%) ar ddiwedd Chwarter 2019, sy'n cynrychioli gostyngiad o 23%.

Mae arwyddion calonogol sy'n ategu'r farn bod yr amrediad o fesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith o fewn yr IAA, dros amser, wedi cael effaith gadarnhaol ar dueddiadau'r clefyd.

Mae llawer o'r mesurau a gafodd eu defnyddio yn yr IAA i ddechrau wedi datblygu i gael eu defnyddio'n genedlaethol. Felly, mae'n briodol adolygu ac ystyried y polisïau ar gyfer yr IAA yn y dyfodol, sydd bellach yn rhan o Ardal TB Uchel y Gorllewin.

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu am ganlyniadau adolygiad a'r argymhellion canlyniadol.

1. Mae'r prawf cadw golwg chwe misol ychwanegol yn cael ei gadw. Ers iddo gael ei gyflwyno mae'r prawf chwe misol ychwanegol wedi bod yn gyfrifol am ddangos bron chwarter o'r holl achosion newydd.

2. Rydym yn parhau i gasglu moch daear marw yn yr IAA ac yn cynnwys y canlyniadau yn adroddiad Cymru Gyfan. Rydym yn eich annog i ddweud wrthym am unrhyw foch daear marw a welwch chi drwy ffonio 08081695110. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://llyw.cymru/dweud-wrthym-am-foch-daear-marw

3. Ni fyddwn ni'n dod yn ôl i gwblhau pumed flwyddyn o frechu moch daear yn yr IAA. Casgliad cyffredinol y modelu a wnaed gan APHA oedd bod y pedair blynedd o waith sydd eisoes wedi cael ei wneud wedi arwain at y canlyniadau gorau posibl wrth leihau achosion o TB mewn moch daear yn yr IAA, heb gynnal pumed flwyddyn o frechu. Mae'r penderfyniad i beidio â gwneud pumed flwyddyn yn seiliedig ar y manteision a welwyd eisoes, yr amser ers cwblhau'r bedwaredd flwyddyn a'r gost.